PWYLLGOR	**PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO**
DYDDIAD	**13 TACHWEDD 2025**
TEITL	**MENTER TWYLL GENEDLAETHOL 2024-25: DIWEDDARIAD**
PWRPAS YR ADRODDIAD	**RHOI DIWEDDARIAD AR LEFEL GENEDLAETHOL AR YMARFER DIWEDDARAF MENTER TWYLL GENEDLAETHOL 2024-25**
AWDUR	**LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO**
GWEITHREDIAD	**ER GWYBODAETH**

---

1. CYFLWYNIAD

1.1 Fel awdurdod cyhoeddus, mae'n ofynnol i Gyngor Gwynedd, yn unol â'r gyfraith, ddiogelu'r arian cyhoeddus a weinyddir ganddo. Bob dwy flynedd, cynhelir ymarferiad paru data caiff ei adnabod fel y Fenter Twyll Cenedlaethol. Mae paru data yn cynnwys cymharu cofnodion cyfrifiadurol a ddelir gan y Cyngor yn erbyn cofnodion cyfrifiadurol eraill a ddelir, neu gyda corff arall, i weld i ba raddau maent yn paru. Pan gaiff data ei baru mae'n dynodi anghysondeb posib y mae angen ymchwilio iddo ymhellach, gan y gallai fod yn dwyllodrus. Ni ellir tybio a oes achos o dwyll, gwall neu esboniad arall hyd nes y cynhelir ymchwiliad.

1.2 Mae'r nodyn briffio hwn yn rhoi diweddariad ar ymarferiad diweddaraf Menter Twyll Genedlaethol 2024-25 ar lefel genedlaethol fel roedd y sefyllfa ar 31 Gorffennaf 2025. Mae hefyd yn darparu rhai data lefel lleol ar gyfer Cyngor Gwynedd.

2. ARGYMHELLIAD

2.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad hwn, cynnig sylwadau a derbyn yr adroddiad.